**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION 09-04-25**

**Presenoldeb:** Cyng. Ioan Thomas (Cadeirydd)

**Cynghorwyr:** Nia Jeffreys, Elwyn Jones, June Jones, Cai Larsen, Anne Lloyd-Jones, Dafydd Meurig, Beth Lawton, Gwynfor Owen, Dyfrig Siencyn a Rob Triggs

**Swyddogion:** Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Hughes, Medwyn Hughes, Angela Russell a Menna Trenholme, a Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr)

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 21ain o Chwefror 2024 fel rhai cywir

5. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

6. **LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

   Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod tri chais wedi ei derbyn am y swydd gyda dau yn cyfateb i'r meini prawf hanfodol.

Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

Er yn siomedig gyda'r nifer ceisiadau, argyhoeddwyd yr Aelodau bod y swydd wedi ei hysbysebu yn ddigonol oedd yn cynnwys gwefannau, asiantaethau a chyhoeddiadau allanol.

Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi dau ymgeisydd ar y rhestr fer.

**PENDERFYNWYD:**

**RHOI DAU YMGEISYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygodd Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) y byddai'r ddau ymgeisydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfres o ymarferion ar-lein a chyda seicolegwyr busnes. Ategodd y byddai Canolfan Asesu mewnol yn cael ei chynnal, ynghyd a threfniadau asesu pellach o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Bydd adborth o ymatebion a pherfformiad yr ymgeiswyr yn yr ymarferion hynny yn cael eu cyflwyno ar lafar i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar ddiwrnod y cyfweliadau.

Trafodwyd cwestiynau (drafft) ar gyfer y cyfweliadau gyda'r Aelodau. Yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd, adroddwyd y bydd fersiwn derfynol o'r cwestiynau yn cael eu rhannu gyda hwy cyn diwrnod y cyfweliadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00 a daeth i ben am 11:15am